Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3507A2023

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020. Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â’r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Trosolwg gan y Bwrdd 8

Arweinyddiaeth a llywodraethu 9

Gweledigaeth ac amcanion strategol 14

Rheoli cyllid 15

Atodiadau

Atodiad 1 – dulliau archwilio 16

Atodiad 2 – ymateb sefydliadol i’r argymhellion archwilio 19

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau o archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol o'r trefniadau llywodraethu yn y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu fel rhan o'r rhaglen o waith archwilio perfformiad ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd). Mae'r adolygiad hwn yn rhan o'r rhaglen o waith ehangach sy'n cael ei chynnal i argyhoeddi'r Archwilydd Cyffredinol bod gan y Bwrdd Iechyd drefniadau priodol i sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau, fel sy'n ofynnol yn ôl Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004.

2 Ym mis Hydref 2021, fe gwblhaom ni adolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd Iechyd. Fe wnaeth yr archwiliad ystyried a oedd trefniadau llywodraethu'r sefydliad o gymorth i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd da. Tynnodd yr archwiliad hwn ar ganfyddiadau o adolygiad lleol blaenorol o drefniadau ansawdd a diogelwch gweithredol yn 2019. Canfu ein gwaith blaenorol, er bod strwythurau ac adnoddau corfforaethol yn rhoi cymorth effeithiol i lywodraethu a gwella ansawdd, fod anghysonderau mewn trefniadau gweithredol a gwendidau mewn trefniadau rheoli risgiau gweithredol yn cyfyngu ar ddarparu sicrwydd. Canfu ein gwaith Asesu Strwythuredig dilynol hefyd, a oedd yn canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd, fod trefniadau gweithredol ar gyfer llywodraethu risg ac ansawdd wedi achosi rhai risgiau, er bod camau gwella'n cael eu cymryd yn ystod 2022.

3 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ganolbwyntio ar wella llywodraethu ac un maes y rhoddwyd ffocws penodol arno yw'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (y Gyfarwyddiaeth). Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi cael arolygiadau allanol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), sydd wedi codi pryderon ynglŷn â darparu gwasanaethau ac ansawdd yr amgylchedd gofal iechyd. Mae adroddiadau'r Bwrdd Iechyd wedi amlygu pryderon mewn perthynas â pherfformiad ac ansawdd iechyd meddwl, gyda mwy o gymhlethdod a chydforbidrwydd mewn atgyfeiriadau iechyd meddwl. Ym mis Hydref 2021, fe gyhoeddodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol eu hadolygiad o Drefniadau Llywodraethu'r Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Er bod yr adroddiad hwn wedi rhoi sicrwydd rhesymol, fe amlygodd yr angen i well trefniadau rheoli risg, y modd yr adroddir ar lywodraethu a'r modd yr adnabyddir cynlluniau ar gyfer arbedion ariannol.

4 Roedd ein gwaith yn ceisio adeiladu ar waith y gwasanaeth Archwilio Mewnol ac AGIC. Mae ffocws allweddol y gwaith wedi bod ar asesu pa un a oes gan y Gyfarwyddiaeth drefniadau llywodraethu effeithiol i'w galluogi i gyflawni ei rôl yn effeithlon ac yn effeithiol i sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd da. Wrth wneud y gwaith, rydym wedi profi llifoedd sicrwydd o'r llawr i'r bwrdd gan ddefnyddio'r gwasanaeth anableddau dysgu fel deunydd olrhain. Caiff y dulliau archwilio a ddefnyddiwyd gennym ar gyfer y gwaith yma eu nodi yn **Atodiad 1**.

# Negeseuon allweddol

5 Ar y cyfan, canfuom fod **trefniadau llywodraethu da fel rheol ar lefel y Gyfarwyddiaeth gyda goruchwyliaeth ar lefel y Bwrdd. Fodd bynnag, mae angen gwella llifoedd gwybodaeth, ac mae angen gwaith pellach i gryfhau perthnasoedd a meithrin diwylliant dysgu mwy agored**.

6 Ceir goruchwyliaeth dda ar berfformiad ac ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu ar lefel y Bwrdd, gydag ystyriaeth i faterion sy'n berthnasol i'r Gyfarwyddiaeth yn cael ei thrafod yn rheolaidd ar draws yr holl bwyllgorau. Adroddir ar berfformiad, ac mae hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd. Mae gwaith gan y Bwrdd Iechyd i wella'i berfformiad wedi arwain at isgyfeirio perfformiad o fewn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) o fonitro uwch gan Lywodraeth Cymru, sy'n dangos yr effaith a gyflawnir. Fodd bynnag, mae gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu'n dal i fod dan bwysau gyda materion staffio, gan gynnwys recriwtio a salwch, yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau amserol. Ceir materion sylweddol hefyd gydag ansawdd yr ystâd lle darperir gwasanaethau'r Gyfarwyddiaeth.

7 Mae trefniadau llywodraethu o fewn y Gyfarwyddiaeth yn eglur ac maent i'w gweld fel pe baent yn gweithio'n dda, gyda threfniadau ar waith i ddarparu sicrwydd ynghylch rheoli risg, perfformiad ac ansawdd. Mae trefniadau llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth anableddau dysgu wedi cael eu gwella hefyd, er eu bod yn dal i fod ar sail dros dro ar adeg ein hadolygiad. Ond mae cyfle i wella llifoedd gwybodaeth rhwng y Gyfarwyddiaeth a'r Bwrdd, symleiddio agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Gyfarwyddiaeth, lleihau achosion o ddyblygu adroddiadau, gwella dealltwriaeth am uwchgyfeirio risgiau a darparu mwy o eglurder o ran camau lliniaru sy'n cael eu rhoi ar waith. Mae COVID-19 wedi effeithio ar weithgarwch archwilio clinigol hefyd ac mae angen ei ailgychwyn i gefnogi gwelliannau i wasanaethau. Er bod camau gweithredu cadarnhaol wedi cael eu cymryd, mae angen cryfhau perthnasoedd ac ail-feithrin ymddiriedaeth o fewn y Gyfarwyddiaeth, a rhwng y Gyfarwyddiaeth a'r weithrediaeth, gyda rhai aelodau o staff yn dweud bod ganddynt berthnasoedd gwael ag uwch reolwyr (o fewn y Gyfarwyddiaeth ac ar lefel Weithredol), a'u bod yn pryderu nad yw uwch reolwyr yn gwrando arnynt nac yn eu gwerthfawrogi.

8 Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth eglur ar gyfer iechyd meddwl. Mae'r strategaeth yn nodi cyfraniad y Bwrdd Iechyd at y system ehangach, gyda phartneriaid a phobl leol, i fynd i'r afael ag achosion afiechyd trwy hybu iechyd a lles, atal ac ymyrryd yn gynnar gan gynnwys ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Mae cynlluniau hefyd i ddatblygu strategaethau ar gyfer anableddau dysgu a meysydd arbenigol eraill, er bod canfyddiad ymhlith staff bod anableddau dysgu'n gallu cael eu hanwybyddu weithiau.

9 Mae gan y Gyfarwyddiaeth reolaethau ariannol wedi'u dogfennu i ategu rheolaeth ariannol ond mae heriau sylweddol yn dal i fodoli mewn perthynas â'r gweithlu yn ogystal ag ansicrwydd ynghylch cyllid gan Lywodraeth Cymru sy'n effeithio ar y gallu i reoli'r cyllid. Yn hanesyddol, mae'r swyddi gwag o fewn y Gyfarwyddiaeth

wedi bod yn ffactor pwysig sydd wedi cyfrannu at danwariannau, mae recriwtio'n dal i fod yn gryn her ac mae angen dull mwy ffurfiol ac wedi'i dargedu'n fwy i fynd i'r afael â mannau lle mae recriwtio'n arbennig o broblemus a sicrhau cynaliadwyedd.

# Argymhellion

10 Caiff argymhellion sy'n codi o'r archwiliad hwn eu nodi yn **Arddangosyn 1**. Caiff ymateb sefydliadol y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn ei grynhoi yn **Atodiad 2**.

**Arddangosyn 1: argymhellion.**

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Y Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad**<br>A1 Er ei fod yn gweithredu'n dda, mae gan y Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad agenda lawn iawn. Hefyd, ceir diffyg eglurder ynghylch sut y mae gwybodaeth o'r grŵp yma'n cael ei huwchgyfeirio at y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd Iechyd a'r Gyfarwyddiaeth:<br>a) adolygu cynnwys agenda'r Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad yn feirniadol i sicrhau ei bod yn ddichonadwy o fewn yr amser; a<br>b) egluro'r llwybr ar gyfer uwchgyfeirio gwybodaeth o'r Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad at y Bwrdd a'i bwyllgorau, gan sicrhau bod gofynion adrodd yn cael eu symleiddio a lleihau achosion o ddyblygu. |
| **Dealltwriaeth am uwchgyfeirio ac isgyfeirio risgiau**<br>A2 Ceir ansicrwydd o fewn y Gyfarwyddiaeth ynghylch y trothwyon ar gyfer uwchgyfeirio risgiau a materion, a allai effeithio ar allu'r Bwrdd i fod â sicrwydd. Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda'r Gyfarwyddiaeth i wella'i dealltwriaeth am uwchgyfeirio ac isgyfeirio risgiau. |
| **Trefniadau rheoli risgiau gweithredol**<br>A3 Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi gweithredu ar adolygiadau blaenorol ac wedi gwneud cynnydd o ran gwella'i threfniadau rheoli risg; fodd bynnag, mae angen gwella ansawdd yr wybodaeth a geir ar y gofrestr risgiau. Dylai'r Gyfarwyddiaeth sicrhau bod cofrestr risgiau'r Gyfarwyddiaeth yn cynnwys camau lliniaru, cerrig milltir a deilliannau disgwyliedig eglur. |

**Argymhellion**

**Gweithgarwch archwilio clinigol**

A4 Mae'r pandemig a newidiadau mewn arweinyddiaeth wedi effeithio ar y rhaglen o archwiliadau clinigol. Dylai'r Gyfarwyddiaeth sicrhau bod rhaglen lawn o archwiliadau clinigol yn cael ei hadfer a'i bod yn weithredol.

**Ymgysylltu â staff**

A5 Mae staff yn teimlo bod perthnasoedd gwael ag uwch reolwyr (o fewn y Gyfarwyddiaeth ac ar lefel Weithredol), gyda chanfyddiad nad yw iechyd meddwl ac anableddau dysgu'n flaenoriaeth, ac ymdeimlad nad yw uwch reolwyr yn gwrando ar staff nac yn eu gwerthfawrogi. Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda'r Gyfarwyddiaeth i:

a) sicrhau bod mecanweithiau i wrando ar staff a hybu deialog yn cael eu cryfhau, a'u bod yn cael yr effaith a ddymunir ar wella ymgysylltiad staff;

b) cynyddu amlygrwydd uwch reolwyr ar draws y Gyfarwyddiaeth; ac

c) cynnwys ymgysylltu a newid diwylliant fel rhan o waith datblygu sefydliadol y Gyfarwyddiaeth.

**Recriwtio**

A6 Ceir swyddi gwag sylweddol yn y Gyfarwyddiaeth sy'n effeithio ar allu'r gwasanaeth i ateb y galw mewn modd amserol. Er bod y Gyfarwyddiaeth wedi datblygu grŵp rheoli'r gweithlu embryonig, mae angen dull mwy ffurfiol. Dylai'r Gyfarwyddiaeth ddatblygu dull ffurfiol ac wedi'i dargedu i fynd i'r afael â mannau lle mae recriwtio'n arbennig o broblemus a sicrhau cynaliadwyedd.

# Adroddiad manwl

## Goruchwyliaeth y Bwrdd

11 Canfuom fel a ganlyn: **ar y cyfan, ceir goruchwyliaeth dda ar berfformiad ac ansawdd gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu ar lefel y Bwrdd**.

12 Mae gan y Bwrdd lefel dda o oruchwyliaeth ar berfformiad ac ansawdd gwasanaethau a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth. Mae gan y Bwrdd oruchwyliaeth ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu trwy Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Bwrdd Iechyd trwy adroddiadau diweddaru'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol. Daw'r adroddiadau hyn gerbron ym mhob cyfarfod ac maent yn nodi diweddariad penodol ar faterion allweddol yn y Gyfarwyddiaeth. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn darparu adroddiadau eithrio ar gyfer yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol, ac mae uchafbwyntiau'n cynnwys diweddariadau cryno ar y cynnydd mewn meysydd gwasanaeth allweddol. Er enghraifft, roedd adroddiad eithrio mis Medi 2022 yn cynnwys diweddariad ar waith gan y gwasanaeth ystadau mewn cyfleusterau anableddau dysgu, sydd wedi aros ar gau ers adolygiad gan AGIC. Dywedwyd fod rhaglen gwella gwasanaeth ddiwygiedig ar gyfer y gwasanaeth anableddau dysgu wrthi'n cael ei datblygu ac adroddwyd ar y cynnig yn ystod mis Tachwedd 2022. Ar ben hynny, darparwyd diweddariad ar y rhaglen newid ar gyfer y tîm allgymorth anableddau dysgu, a fydd yn darparu cymorth ymyrryd yn gynnar a chymorth mewn argyfwng ac yn cyflawni rheolaeth glinigol ar yr holl dderbyniadau i unedau cleifion mewnol.

13 Mae'r gofrestr risgiau corfforaethol hefyd yn cynnwys risg sy'n ymwneud â hyd arosiadau ar gyfer triniaeth ac asesu yn y Gyfarwyddiaeth. Mae'r risg yn cael ei hystyried ar lefel y Bwrdd ac yn cael ei monitro trwy'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. Mae prinderau staff, bylchau ar ffurf swyddi gwag, cadw staff, salwch staff a chario gwyliau blynyddol drosodd o'r pandemig i gyd wedi effeithio ar y ddarpariaeth. Mae'r rhain yn parhau i effeithio ar gapasiti i weld a thrin cleifion ar draws y Bwrdd Iechyd. Gwaethygwyd hyn ymhellach gan y ffaith bod llai o staff ar gael yn ystod misoedd yr haf i wneud sifftiau goramser. Mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau sicrwydd rheolaidd gan y Gyfarwyddiaeth ynghylch heriau o ran adnoddau.

14 Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl yn adrodd yn uniongyrchol wrth y Bwrdd, gan roi diweddariadau rheolaidd ar ddefnyddio'r ddeddfwriaeth. Mae'r Pwyllgor yn adolygu'r gofrestr risgiau'n fanwl bob chwe mis, i sicrhau bod risgiau sy'n ymwneud â chydymffurfio â deddfwriaeth iechyd meddwl yn cael eu rheoli'n briodol gan y Grŵp Craffu Deddfwriaeth Iechyd Meddwl, sy'n cael ei oruchwylio gan y Gyfarwyddiaeth. Cyflwynir adroddiadau ar Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 i'r grŵp yn chwarterol i ddarparu sicrwydd bod gweithgarwch yn cael ei fonitro'n fanwl, a bod ymarfer yn cydymffurfio â gofynion y Cod Ymarfer. Pan arsylwyd arno, serch hynny, fe orffennodd cyfarfod y Pwyllgor yn gynnar, a dim ond trwy ddiweddariad ar lafar yr ymdriniwyd â'r risgiau, gan nodi nad oes unrhyw risgiau wedi'u halinio'n ffurfiol â'r Pwyllgor.

15 Mae goruchwyliaeth y Bwrdd ar berfformiad iechyd meddwl ac anableddau dysgu'n cael ei chynnal trwy Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig y Bwrdd Iechyd a drafodir ar lefel y Bwrdd, ac mewn mwy o fanylder yn y Pwyllgor Datblygu Strategol a Chyflawni Gweithredol. Ar ben hynny, amlygir perfformiad trwy'r diweddariadau gweithredol a ddarperir gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau, a oleuir gan gyfarfod y Rhaglen Cynllunio a Chyflawni Gweithredol. Mae hwn yn cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Gweithrediadau ac yn dwyn ynghyd yr uwch dimau rheoli o'r holl Gyfarwyddiaethau gweithredol i drafod heriau a chytuno ar gamau gweithredu priodol. Cyflwynir diweddariadau penodol ar berfformiad i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Datblygu Strategol a Chyflawni Gweithredol hefyd lle y bo'n berthnasol a hynny ar feysydd allweddol. Ar adeg ein gwaith, roedd statws uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd ar lefel monitro uwch, yn rhannol oherwydd y modd yr oedd yn cydymffurfio â Rhan 1 Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Mae diweddariadau ar y cynllun adfer wedi'i dargedu a roddwyd ar waith wedi cael eu darparu gan nodi bod cynnydd da wedi cael ei wneud. Mae hyn wedi arwain at isgyfeirio'r mater yn ddiweddarach gan Lywodraeth Cymru.

16 Cyflwynir adroddiadau ar gynnydd yn erbyn yr agweddau perthnasol ar gynllun gweithredol y Bwrdd Iechyd sy'n ymwneud ag iechyd meddwl ac anableddau dysgu i'r Bwrdd trwy ddiweddariadau chwarterol, gyda'r modd y cyflawnir y blaenoriaethau penodol yn cael ei fonitro'n fanylach trwy'r Pwyllgor Datblygu Strategol a Chyflawni Gweithredol. Adroddir ar sefyllfa ariannol y Gyfarwyddiaeth o fewn yr adroddiadau ar gyllid ar gyfer y Bwrdd a'r Pwyllgor Adnoddau Cynaliadwy ac mae monitro a chraffu manylach yn digwydd trwy'r Pwyllgor. Gwneir gwaith manwl i adrodd ar faterion a risgiau sy'n gysylltiedig â gweithlu'r Gyfarwyddiaeth ac i roi ystyriaeth iddynt yn y Pwyllgor Pobl, Datblygu Sefydliadol a Diwylliant.

## Arweinyddiaeth a llywodraethu

17 Canfuom fod **trefniadau llywodraethu eglur yn bodoli sydd i'w gweld fel pe baent yn gweithio'n dda ar y cyfan, ond bod angen eglurder i sicrhau bod materion yn cael eu huwchgyfeirio'n briodol, a bod angen mwy o waith hefyd i wella'r diwylliant o fod yn agored ac ymddiriedaeth o fewn y Gyfarwyddiaeth**.

### Trefniadau llywodraethu

18 Canfuom **fod gan y Gyfarwyddiaeth drefniadau llywodraethu sydd wedi'u disgrifio'n glir ac sydd i'w gweld fel pe baent yn gweithio'n dda, ond bod cyfle i wella llifoedd gwybodaeth, symleiddio agendâu a lleihau achosion o ddyblygu adroddiadau**.

19 Mae gan y Gyfarwyddiaeth drefniadau llywodraethu eglur. Mae'r trefniadau wedi'u dogfennu'n dda gyda rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd ar gyfer trefniadau llywodraethu o fewn y Gyfarwyddiaeth ar lefelau gweithredol a strategol wedi'u

disgrifio’n glir. Mae uwch dîm rheoli’r Gyfarwyddiaeth wedi cyflwyno nifer o newidiadau dros y tair blynedd ddiwethaf i gryfhau rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd mewn perthynas â llywodraethu. Mae hyn wedi cynnwys newidiadau mewn cyfrifoldebau i ailbennu cydbwysedd portffolios a chaniatáu capasiti i uwch dimau roi’r sylw angenrheidiol i feysydd y mae angen eu gwella. Ar adeg ein hadolygiad ni, roedd hi’n rhy gynnar i ddweud pa un a oedd y newidiadau’n cael effaith gadarnhaol ai peidio.

20 O fewn y Gyfarwyddiaeth, ceir dau brif grŵp llywodraethu – y Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad a’r Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad. Mae’r rhan fwyaf o grwpiau gweithredol y Gyfarwyddiaeth yn adrodd wrth naill ai’r Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad neu’r Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad. Yr unig eithriadau yw’r rhai sy’n adrodd yn uniongyrchol wrth bwyllgorau’r Bwrdd megis y rhai sy’n adrodd wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl.

21 Mae grwpiau’r Gyfarwyddiaeth yn gweithio’n dda fel rheol. Fel rhan o’n gwaith, fe arsylwom ni ar nifer o grwpiau gan gynnwys y Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad a’r Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad. Mae’r Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn cwrdd bob deufis ac mae nifer dda’n ei fynychu. Mae’r holl feysydd allweddol y byddem yn disgwyl iddynt gael eu hystyried yn cael eu hystyried gan y grŵp, er ein bod wedi nodi agendâu llawn iawn gyda phapurau manwl iawn. Yn 2019, newidiwyd Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Gyfarwyddiaeth o fod yn is-bwyllgor i’r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad i fod yn grŵp gweithredol o fewn y Gyfarwyddiaeth sy’n adrodd wrth yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol. Ar yr adeg honno, roedd Aelod Annibynnol yn aelod o’r grŵp. Fe wnaed y newid hwn yn dilyn ein hadolygiad yn 2019, pan gafodd y strwythurau llywodraethu ansawdd eu hadolygu a’u symleiddio. Mynegodd rhai aelodau o staff ganfyddiad cryf am golli llais ac amlygrwydd yn y berthynas â’r Bwrdd pan nad oedd y grŵp yn adrodd yn uniongyrchol wrth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad mwyach ond yn hytrach yn adrodd wrth yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol. Roedd hyn yn rhannol am nad oedd ganddynt fynediad uniongyrchol at Aelod Annibynnol mwyach, er nad oedd gan yr un gyfarwyddiaeth arall fynediad uniongyrchol at Aelod Annibynnol ar y pryd. Fodd bynnag, mae Aelod Annibynnol yn mynychu’r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol, lle mae ansawdd a diogelwch o fewn y gyfarwyddiaeth yn cael eu trafod bellach ochr yn ochr â chyfarwyddiaethau eraill fel rhan o ddull mwy cydlynol.

22 Mae agenda cyfarfodydd y Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad yn cynnwys cyllid, perfformiad, y gweithlu a risg. Wrth arsylwi ar y Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad fe sylwom ni eto fod yr agenda’n llawn iawn. Mae’r Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad yn cwrdd yn fisol gyda phob yn ail gyfarfod yn cynnwys astudiaeth fanwl o faes gwasanaeth allweddol. Mae nifer weddol dda’n mynychu cyfarfodydd, gyda chynrychiolaeth dda o’r holl adrannau. Roedd y cyfarfod yn cynnwys llawer o wybodaeth fanwl ond gallai fod wedi elwa o ffocws mwy penodol ar faterion o bwys allweddol a allai gynnwys agendâu

cyfarfodydd, dangosfyrddau ac adroddiadau wedi'u symleiddio'n fwy **(Argymhelliad 1a)**. Arsylwyd ar yr astudiaeth fanwl o anableddau dysgu a darparodd honno ddiweddariadau cynhwysfawr.

23 Er bod Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Gyfarwyddiaeth yn adrodd yn uniongyrchol wrth yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol, mae'n llai eglur sut y mae'r Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad yn mapio i strwythurau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd ac yn benodol sut a phryd y mae gwybodaeth o bwys o'r grŵp yn cael ei huwchgyfeirio at y Bwrdd. Roedd cyfweleion i'w gweld fel pe baent yn methu â disgrifio'n glir sut y mae gwybodaeth yn llifo o'r Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad ac roedd eu barn yn amrywio, gyda phryderon yn cael eu codi ynghylch gofynion adrodd rhy feichus a diffyg dull cydgysylltiedig o ymdrin â cheisiadau am wybodaeth. Byddai hyn yn awgrymu y byddai llinell welededd well rhwng y Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad a'r Bwrdd o gymorth, gyda llinellau eglur i adrodd ar wybodaeth er mwyn lleihau dyblygu diangen **(Argymhelliad 1b)**.

24 Gyda ffocws penodol ar anableddau dysgu, canfuom fod **y trefniadau llywodraethu wedi cael eu cryfhau ond roedd y newidiadau hyn yn dal i fod yn rhai dros dro ar adeg yr adolygiad hwn**.

25 Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi cryfhau ei threfniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli'r gwasanaeth anableddau dysgu. Yn flaenorol, roedd portffolio cyfunol ar gyfer gwasanaethau anableddau dysgu a gwasanaethau iechyd meddwl oedolion hŷn. Ym mis Hydref 2020, holltwyd hyn i ganiatáu mwy o amser wedi'i neilltuo ar gyfer y gwasanaeth anableddau dysgu, i fynd i'r afael â materion staff a diwylliant a oedd wedi codi yn yr adran. Roedd y trefniant newydd i fod yn un am naw mis i ddechrau, gyda phenaethiaid gwasanaeth ar wahân ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl oedolion hŷn ac anableddau dysgu. Penodwyd pennaeth gwasanaeth parhaol ar gyfer iechyd meddwl oedolion hŷn ym mis Medi 2021, ond ar adeg ein hadolygiad, roedd y swydd pennaeth gwasanaeth ar gyfer anableddau dysgu'n dal i fod yn un dros dro. Nododd y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu fod angen mwy o amser ac adnoddau ar anableddau dysgu i ateb gofynion goruchwylio o fewn y gwasanaeth, ac o ganlyniad mae Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gyfarwyddiaeth wedi bod yn goruchwylio'r adran hefyd ers mis Mawrth 2022.

## Systemau sicrwydd

26 Canfuom fod **trefniadau'n bodoli i ddarparu sicrwydd ynghylch rheoli risg, perfformiad ac ansawdd o fewn y Gyfarwyddiaeth ar bod angen cryfhau dealltwriaeth am uwchgyfeirio risgiau ac eglurder camau lliniarol**.

27 Mae goruchwyliaeth ar faterion ac ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl ac anableddau dysgu'n dibynnu yn y pen draw ar broses eglur ar gyfer uwchgyfeirio. O'n gwaith ni, canfuom ansicrwydd o fewn y Gyfarwyddiaeth ynghylch trothwyon o ran pryd i uwchgyfeirio materion. Mae hyn yn gysylltiedig â chyfathrebu, perthnasoedd ac i ryw raddau ymddiriedaeth rhwng y Gyfarwyddiaeth a'r Bwrdd. Ar ben hynny, mae aelodau o dîm rheoli'r Gyfarwyddiaeth wedi sôn am

uwchgyfeirio materion ar y gofrestr risgiau at gyfarwyddwyr gweithredol ac Aelodau Annibynnol mewn un fforwm, dim ond i gael gwybod gan gyfarwyddwyr gweithredol neu Aelodau Annibynnol gwahanol nad yw materion wedi cael eu codi mewn fforwm arall. Mae angen gwaith pellach i wella dealltwriaeth am drothwyon ar gyfer uwchgyfeirio pryderon, gan felly sicrhau ymateb mwy cydgysylltiedig rhwng y Gyfarwyddiaeth a'r Bwrdd **(Argymhelliad 2)**.

28 Roedd mater eilaidd a godwyd yn ymwneud â'r ddealltwriaeth am risgiau yr adroddir arnynt a phwy sy'n gyfrifol am y risg honno. Canfu ein gwaith fod fframwaith rheoli risg ar waith ar lefel y Bwrdd gyda Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd datblygedig sy'n dal i gael ei ddiweddaru. Mae adroddiad y Gyfarwyddiaeth i'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol yn cynnwys y risgiau gweithredol i ansawdd a chamau i'w lliniaru. Mae aelodau'n cael trosolwg o'r risgiau gweithredol uchaf a chamau i'w lliniaru. Ar adeg ein hadolygiad, roedd cofrestr risgiau'r Gyfarwyddiaeth yn cynnwys 38 o risgiau, gyda phump o'r risgiau hynny wedi'u nodi fel risgiau 'eithafol'. Fodd bynnag, roedd nifer o reolwyr a staff ar lefel y Gyfarwyddiaeth yn teimlo bod risgiau'n cael eu hanfon yn ôl at y Gyfarwyddiaeth gyda chais am weithredu pellach, yn aml er bod y Gyfarwyddiaeth wedi dihysbyddu'r holl gamau gweithredu. Ers ein hadolygiad, mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau cyflwyno'i Fframwaith Gwella Gyda'n Gilydd[1] a fydd yn rhoi mwy o ffocws ar risgiau uwchlaw goddefiant, ochr yn ochr ag ymagwedd fwy cyflawn at berfformiad, cyllid ac adrodd.

29 Fodd bynnag, o fewn y Gyfarwyddiaeth ceir materion gyda rheoli risg. O fewn y Gyfarwyddiaeth, bu cynnydd da o ran cryfhau prosesau rheoli risg yn dilyn adroddiadau archwilio a chynlluniau gweithredu cynharach, ac fe ganfu ein hadolygiad fod y Gyfarwyddiaeth yn fwy cyfarwydd â'i risgiau allweddol. Fodd bynnag, mae angen gwella ansawdd yr wybodaeth a geir ar y gofrestr risgiau i sicrhau bod camau lliniaru, cerrig milltir a deilliannau disgwyliedig eglur (**Argymhelliad 3**).

30 Mae cyflwr ystâd y Gyfarwyddiaeth yn risg allweddol i'r Bwrdd Iechyd. Yn ystod ein gwaith, fodd bynnag, dywedodd sawl aelod o staff nad oedd materion o ran ystadau'n tueddu i gael eu huwchgyfeirio i'r un graddau â materion o ran y gweithlu, gyda barn bod ystadau'n is yn y rhestr o flaenoriaethau. Serch hynny, roedd y pryderon i gyd yn ymwneud â'r uned â thri gwely a gaewyd yn dilyn arolygiad gan AGIC. Roedd gan AGIC bryderon sylweddol ynghylch y risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion mewn un lleoliad a oedd wedi mynd â'i ben iddo, ac roedd hi'n ymddangos fel pe bai hyn wedi cael ei oddef am gryn dipyn o amser. Fe godwyd y pryderon hyn ar unwaith gyda'r Bwrdd Iechyd gan nodi bod angen cymryd camau cywirol i fynd i'r afael â'r materion a oedd yn achosi'r pryder mwyaf ac ymdrin â'r risgiau mwyaf ar fyrder. Mae diweddariadau wedi cael eu darparu ar gyfer yr Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Gweithredol ers hynny ac mae

[1] Gwella Gyda'n Gilydd yw ymagwedd y Bwrdd Iechyd at sicrhau bod gwella perfformiad yn rhan annatod o'i drefniadau llywodraethu.

pryderon ynghylch addasrwydd ystâd y Gyfarwyddiaeth ar gyfer y diben bellach yn cael sylw pendant.

31 Mae'r Gyfarwyddiaeth yn defnyddio'i dangosfwrdd perfformiad i gynnal goruchwyliaeth ar ystod eang o ddangosyddion allweddol. Fel pwynt cyffredinol, nodwyd fod amseroldeb data'n her gyfredol i'r Gyfarwyddiaeth a fyddai'n gwella unwaith y byddai System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS) wedi'i chwblhau. Nodwyd fod hon yn cynnig y potensial i ddarparu newid sydd i'w chroesawu o ddata 'ar adeg benodol mewn amser' i adrodd 'bron mewn amser real' ac i gyfrannu at reoli rhestrau aros yn well. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn un o'r cyfarwyddiaethau cyntaf i gyflwyno Fframwaith Gwella Gyda'n Gilydd y Bwrdd Iechyd. Y fframwaith yw ymagwedd newydd y Bwrdd Iechyd at sicrhau bod gwella perfformiad yn rhan annatod o'r strwythurau llywodraethu.

32 Mae strwythurau a fframwaith ansawdd clinigol y Gyfarwyddiaeth i'w gweld yn weddol gadarn, gan nodi cyd-destun y pwysau gweithredol parhaus ar wasanaethau a chydnabyddiaeth y Gyfarwyddiaeth bod angen gwella'n barhaus. Mae gan y Gyfarwyddiaeth Dîm Datblygu Ymarfer Sicrhau Ansawdd a Nyrs arweiniol. Cynhelir gwiriadau wardiau iach, ac mae dangosyddion clinigol allweddol misol gan gynnwys, er enghraifft, digwyddiadau difrifol a chwynion, yn cael eu rhannu gyda thimau gweithredol. Mae nyrs ymgynghorol yn arwain Fforwm Nyrsys Proffesiynol y Gyfarwyddiaeth, a cheir arweinwyr clinigol penodol ar gyfer pob maes gwasanaeth gan gynnwys meddygol, nyrsio, therapi galwedigaethol, seicoleg, ffisiotherapi, a therapi iaith a lleferydd. Mae Grŵp Dogfennau Rheolaeth Ysgrifenedig yn goruchwylio datblygiad gweithdrefnau gweithredol sy'n tanategu polisïau ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu diweddaru'n brydlon. Ar adeg ein hadolygiad, roedd archwilio clinigol yn cael ei gryfhau o fewn y tîm Datblygu Ymarfer Sicrhau Ansawdd trwy greu dangosfwrdd o fesurau sy'n gysylltiedig ag offer archwilio. Roedd y rhaglen o archwiliadau clinigol wedi mynd i gors, oherwydd y pandemig i ddechrau, ac yna oherwydd ymadawiad clinigwr arweiniol y Gyfarwyddiaeth ar gyfer archwilio clinigol yn 2022. Penodwyd clinigwr arweiniol newydd ar gyfer archwilio clinigol yn ddiweddar, ac yn awr mae angen i'r Gyfarwyddiaeth wneud yn siŵr ei bod yn cynyddu i'r eithaf y defnydd a wneir o'i rhaglen o archwiliadau clinigol **(Argymhelliad 4).**

## Diwylliant

33 Canfuom **er bod camau gweithredu cadarnhaol yn cael eu cymryd, fod angen cryfhau perthnasoedd ac ail-feithrin ymddiriedaeth o fewn y Gyfarwyddiaeth, a rhwng y Gyfarwyddiaeth a'r weithrediaeth.**

34 Canfu ein hadolygiad fod canfyddiad ymhlith staff bod materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl ac anableddau dysgu'n cael eu colli ar lefel y Bwrdd a phwyllgorau ymhlith pwysau uniongyrchol eraill ar wasanaethau, gan gynnwys gofal brys ac mewn argyfwng. Mae'n achosi mwy o bryder bod rhai aelodau o staff hefyd yn teimlo nad oedd uwch reolwyr, o fewn y Gyfarwyddiaeth ac ar lefel gorfforaethol, yn llwyr ddeall yr heriau a wynebir gan staff rheng-flaen sy'n darparu gwasanaethau.

Dywedodd staff hefyd fod cyfathrebu gwael ynglŷn â phenderfyniadau, pryderon nad oedd uwch reolwyr yn gwrando ar syniadau, teimladau o beidio â chael eu clywed a chael eu tanbrisio, a pherthnasoedd gwael ar y cyfan rhwng uwch reolwyr a staff rheng-flaen. Roedd pryderon hefyd bod anableddau dysgu'n cael eu hystyried yn llai o flaenoriaeth nag iechyd meddwl ac, yn dilyn yr adolygiad gan AGIC, ymdeimlad bod staff yn teimlo eu bod wedi cael loes a bod gormod o graffu arnynt.

35 Mae tîm rheoli'r Gyfarwyddiaeth yn gweithio'n galed i ymgysylltu â staff a gwrando arnynt. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i drefniadau rheoli, rhaglen o waith datblygu sefydliadol a sefydlu hyrwyddwyr 'rhyddid i godi llais' a rheolwyr perthnasoedd. Fodd bynnag, mae angen gwaith pellach o hyd i gynyddu amlygrwydd uwch reolwyr, i ail-feithrin ymddiriedaeth o fewn y Gyfarwyddiaeth a chyda'r weithrediaeth, a thrwy hynny ddatblygu diwylliant dysgu mwy agored **(Argymhellion 5a, 5b a 5c)**.

# Gweledigaeth ac amcanion strategol

36 Canfuom fod **cyfeiriad strategol eglur ar gyfer iechyd meddwl, a bod cynlluniau ar waith i ddatblygu strategaethau ar gyfer anableddau dysgu a meysydd arbenigol eraill, er bod canfyddiad mai iechyd meddwl yw'r prif ffocws**.

37 Mae strategaeth hirdymor y Bwrdd Iechyd, a nodir yn Canolbarth a Gorllewin Cymru Iachach, yn nodi'n glir beth yw cyfraniad y Bwrdd Iechyd at y system ehangach, gyda phartneriaid a phobl leol, i ymdrin ag achosion afiechyd. Mae hyn yn digwydd trwy hybu iechyd a lles, atal ac adnabod yn gynnar, gan gynnwys ar gyfer iechyd meddwl ac anableddau dysgu.

38 Caiff strategaeth y Bwrdd Iechyd ei goleuo gan y rhaglen Trawsnewid Iechyd Meddwl, a ddechreuodd yn dilyn cyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd yn 2017. Mae'r rhaglen yn nodi'r strategaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac mae cynnydd da'n cael ei wneud i roi model wedi'i gyd-ddylunio ar waith ar gyfer iechyd meddwl. Mae cynnydd i gysoni cynlluniau Trawsnewid Iechyd Meddwl presennol â datblygiad cynlluniau ar gyfer y model cymunedol yn mynd rhagddo. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i gydleoli canolfannau iechyd meddwl cymunedol gyda'r canolfannau iechyd a lles lle y bo'n briodol.

39 Ar gyfer anableddau dysgu, yr uchelgais yw hybu annibyniaeth mewn amgylcheddau cymunedol gan gynnwys cyfrannu at raglen drawsnewid ag amryw randdeiliaid a fydd yn nodi'r strategaeth ar gyfer anableddau dysgu. Nod hyn yw mynd ati ymhellach i foderneiddio dull y Bwrdd Iechyd o roi gofal a chymorth i bobl ag anabledd dysgu, dan arweiniad partneriaid mewn awdurdodau lleol. Mae'r weledigaeth yn nodi rhwydweithiau cymunedol integredig a fydd yn cwmpasu'r sbectrwm cyfan gan gynnwys iechyd a lles corfforol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Bydd y rhwydweithiau hyn yn meithrin perthnasoedd cryf â'u cymunedau ac

yn ymgysylltu'n barhaus â'u poblogaethau wyneb yn wyneb a thrwy blatfformau digidol.

40 Pan ofynnwyd iddynt, roedd staff yn teimlo'n gyffredinol, er bod y pandemig wedi cael effaith ar gynnydd, bod consenswS cryf bod y rhaglen Trawsnewid Iechyd Meddwl wedi hen ennill ei phlwyf, ei bod yn pennu'r cyfeiriad strategol a'i bod yn glir ynglŷn â modelau'r gweithlu ac ymdrin â dulliau cymunedol. Fodd bynnag, ystyrir bod y strategaeth anableddau dysgu'n fwy o waith ar y gweill gyda staff yn teimlo bod anableddau dysgu'n byw yng nghysgod iechyd meddwl ar adegau. Roedd hyn hefyd yn un o'r themâu a ddaeth i'r amlwg o'n trafodaethau yn y grwpiau ffocws.

41 Mae cynnydd yn erbyn y strategaethau'n cael ei fonitro trwy drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro'r modd y cyflawnir cynllun gweithredol y Bwrdd Iechyd, ac mae elfennau allweddol yn cael eu cyflawni. Mae'r ffurflenni chwarterol yn nodi'r bwriad, dan amcan cynllunio 5G, i roi'r elfennau sy'n weddill o'r rhaglen Trawsnewid Iechyd Meddwl ar waith a datblygu a gweithredu strategaeth Trawsnewid Anableddau Dysgu yn unol â 'Gwella Bywydau, Gwella Gofal' dros y tair blynedd nesaf. Mae'r ffurflenni hefyd yn nodi'r cynllun i ddatblygu a gweithredu cynllun ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Arbenigol (S-CAMHS) ac anhwylder ar y sbectrwm awtistig ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, a rhoi'r pwynt cyswllt unigol ar gyfer iechyd meddwl trwy'r gwasanaeth 111 cenedlaethol ar waith. Mae cynnydd gyda'r cynllun ar y trywydd iawn gyda'r pwynt cyswllt unigol wedi cael ei roi ar waith ym mis Rhagfyr 2022.

# Rheoli'r cyllid

42 Canfuom fod **gan y Gyfarwyddiaeth reolaethau ariannol wedi'u dogfennu i ategu rheolaeth ariannol ond bod heriau sylweddol o hyd o ran y gweithlu ac ansicrwydd ynghylch cyllid gan Lywodraeth Cymru, sy'n effeithio ar y gallu i reoli'r cyllid**.

43 Canfu ein gwaith fod rheolaethau ariannol wedi'u dogfennu ar draws y Gyfarwyddiaeth gydag adroddiadau misol rheolaidd wedi'u nodi. Mae gan y Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad rôl ganolog, gydag astudiaeth fanwl y Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad ar gyfer anableddau dysgu'n dangos lefel dda o graffu ar faterion ariannol a pherfformiad.

44 Cafodd rôl y partneriaid busnes cyllid ei hamlygu fel datblygiad pwysig gan staff y Gyfarwyddiaeth. Cafodd yr heriau o ran recriwtio a swyddi gwag, a thanwariannau o ganlyniad i hynny eu nodi hefyd ynghyd â chanfyddiad mai'r Gyfarwyddiaeth fu'r opsiwn diofyn ar gyfer darparu arbedion oherwydd tanwariannau hanesyddol (adroddwyd ar warged o £1.9 miliwn yn 2021-22). Cafodd y modd bratiog y mae Llywodraeth Cymru'n dosbarthu arian mewn perthynas ag iechyd meddwl ac anableddau dysgu, a'r graddfeydd amser byr ar gyfer ei wario, eu hamlygu fel her sy'n effeithio ar gadernid cynllunio a rheolaeth ariannol hefyd.

45 Mae sefyllfa ariannol y Gyfarwyddiaeth yn 2022-23 yn gryn her. Fodd bynnag, mae trefniadau ar gyfer goruchwyliaeth a chraffu amserol a chywir ar berfformiad ariannol i'w gweld fel pe baent yn foddhaol. Roedd y Gyfarwyddiaeth £1.5 miliwn islaw'r gyllideb ym Mis 1af y flwyddyn ariannol gyfredol, gan symud i fod £1.3 uwchlaw'r gyllideb ym Mis 6. Ym Mis 8, roedd y sefyllfa wedi gwella i £0.3 miliwn islaw'r gyllideb gyda gwarged o £1.6 miliwn yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd disgwyl i gyllid gan Lywodraeth Cymru wella'r sefyllfa ym Mis 7 ac fe allai penderfyniad ynghylch defnyddio £1.8 miliwn a oedd yn cael ei ddal mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer costau uwch Cynghorau Iechyd Cymuned fod wedi gwella'r sefyllfa ymhellach. Fodd bynnag, mae symudiadau mewn cronfeydd yn creu rhywfaint o ansicrwydd ynghylch sefyllfa ariannol y Gyfarwyddiaeth a'i gallu i reoli'r gyllideb. Mae'r symudiadau sylweddol o danwariannau i orwariannau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gyfarwyddiaeth ystyried ei defnydd o adnoddau i gael dealltwriaeth well am sefyllfa ariannol y Gyfarwyddiaeth a gwella'r sefyllfa honno.

46 Fodd bynnag, mae recriwtio ac absenoldeb oherwydd salwch wedi gwella yn nhri o bedwar maes y tîm iechyd meddwl cymunedol. Maent wedi gwaethygu mewn un maes, mewn perthynas â chydlynwyr gofal. Mewn gwasanaethau iechyd meddwl oedolion hŷn, nodwyd fod nifer sylweddol o swyddi gwag o fewn y gweithlu a salwch staff yn her barhaus hefyd. Mae'r galw'n dal i fod yn uwch na chapasiti'r gwasanaethau gyda rhestrau aros yn rhoi cyfrif am bedair allan o bum prif risg y Gyfarwyddiaeth; arosiadau asesu a diagnostig ar gyfer y gwasanaeth awtistiaeth, arosiadau am wasanaethau therapi seicolegol integredig ac arosiadau am driniaeth fewnol ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed arbenigol.

47 Mae swyddi gwag wedi bod yn ffactor pwysig a oedd yn cyfrannu'n flaenorol at danwariannau. Mae'r gweithlu meddygol wedi dal i fod yn her arbennig er bod peth cynnydd wedi cael ei wneud y tu allan i recriwtio ar gyfer y gweithlu meddygol. Mae rhwng 48 a 50 o staff cyfwerth ag amser cyflawn wedi cael eu recriwtio i'r gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, anableddau dysgu a niwroddatblygiadol. Mae angen dull mwy ffurfiol ac wedi'i dargedu'n fwy i ymdrin â'r holl feysydd y mae recriwtio'n arbennig o broblemus ynddynt. Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi cynnull Grŵp Rheoli'r Gweithlu embryonig i ddod â'r holl faterion o ran y gweithlu a datblygu sefydliadol ynghyd. Gall hyn hefyd alluogi dull â ffocws mwy pendant o fynd i'r afael â risgiau o ran y gweithlu, gan gynnwys swyddi gwag, cyfraddau salwch a chyfraddau cadw i greu mwy o gynaliadwyedd **(Argymhelliad 6)**.

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

**Arddangosyn 2: dulliau archwilio**

Mae **Arddangosyn 2** yn disgrifio'r dulliau archwilio a fabwysiadwyd gennym i gynnal yr adolygiad hwn.

| Elfen o'r dulliau archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Cyfweliadau | Fe wnaethom gyfweld â'r canlynol:<br>• Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad Cleifion<br>• Cyfarwyddwr Gweithrediadau<br>• Is-Gadeirydd<br>• Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu<br>• Cyfarwyddwr Cynorthwyol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu<br>• Cyfarwyddwr Meddygol Cysylltiol a Chyfarwyddwr Clinigol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu<br>• Pennaeth Gwasanaeth, Anableddau Dysgu<br>• Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad |
| Arsylwadau | Fe arsylwom ni ar y canlynol:<br>• Pwyllgor Deddfwriaeth Iechyd Meddwl<br>• Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad<br>• Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad<br>• Cymuned Ymarfer Nyrsys Anableddau Dysgu<br>• Cyfarfod Rheolwyr Busnes a Gweinyddu |
| Dogfennau | Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Cofnodion a phapurau o bwyllgorau a chyfarfodydd perthnasol, gan gynnwys Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad a Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Gyfarwyddiaeth<br>• Cylch Gorchwyl terfynol ar gyfer pob grŵp gweithredol o fewn y Gyfarwyddiaeth gan gynnwys, ymhlith eraill, y Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad a'r Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad<br>• Cylch Gorchwyl terfynol a chofnodion a phapurau o'r Cyfarfod Busnes a Pherfformiad Anableddau Dysgu<br>• Fframwaith llywodraethu wedi'i ddogfennu |

| Elfen o’r dulliau archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| | • Adolygiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru<br>• Strwythur sefydliadol y Gyfarwyddiaeth ar hyn o bryd<br>• Cofrestrau risgiau ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a’r Gwasanaeth Anableddau Dysgu<br>• Adroddiadau adborth diweddar gan gleifion ar gyfer y Gwasanaeth Anableddau Dysgu |
| Grwpiau ffocws | Fe gynhaliom ni grwpiau ffocws gyda:<br>• Staff o fewn y gwasanaeth anableddau dysgu<br>• Staff o fewn y gyfarwyddiaeth ehangach, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl oedolion, gwasanaethau seicoleg, y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed a gwasanaethau iechyd meddwl oedolion hŷn. |
| Arolwg | Fe gynhaliom ni arolwg ar-lein a oedd ar gael i’r holl staff yn y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. |

# Atodiad 2

## Ymateb sefydliadol i'r argymhellion archwilio

**Arddangosyn 3: ymateb sefydliadol i'r argymhellion archwilio**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Grŵp Cynllunio Busnes a Pherfformiad**<br>A1 Er ei fod yn gweithredu'n dda, mae gan y Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad agenda lawn iawn. Hefyd, ceir diffyg eglurder ynghylch sut y mae gwybodaeth o'r grŵp yma'n cael ei huwchgyfeirio at y Bwrdd. Dylai'r Bwrdd Iechyd a'r Gyfarwyddiaeth:<br>a) adolygu cynnwys agenda'r Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad yn feirniadol i sicrhau ei bod yn ddichonadwy o fewn yr amser; a<br>b) egluro'r llwybr ar gyfer uwchgyfeirio gwybodaeth o'r Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad at y Bwrdd a'i bwyllgorau, gan sicrhau bod gofynion | a) Cynnal adolygiad o Gylch Gorchwyl y Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad, a sefydlu is-grwpiau lle y bo'n briodol, a fydd yn darparu Adroddiadau Eithrio ar gyfer y Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad, gan sicrhau bod materion gweithredol allweddol yn cael eu huwchgyfeirio mewn modd perthnasol i gael eu trafod o fewn y fforwm.<br>Cynnal adolygiadau blynyddol o agendâu arfaethedig y Grŵp Cynllunio Busnes a | Medi 2023 | Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| adrodd yn cael eu symleiddio a lleihau achosion o ddyblygu. | Sicrhau Perfformiad, gan sicrhau bod cynlluniau strategol a gweithredol yn cael eu trafod a'u monitro ar yr adeg briodol.<br><br>Sicrhau bod diweddariadau i'r Tabl o Gamau Gweithredu sy'n codi o gyfarfodydd blaenorol y Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad yn cael eu darparu'n ysgrifenedig cyn y cyfarfod i sicrhau bod amser yn cael ei reoli'n briodol mewn cyfarfodydd.<br><br>b) Mae materion sy'n achosi pryder a godir yn y Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad yn cael eu huwchgyfeirio at gyfarfodydd Uwch Fusnes Gweithredol y Cyfarwyddwr Gweithrediadau, a gynhelir yn fisol. Gall materion y mae'n ofynnol i'r Bwrdd neu ei bwyllgorau roi sylw iddynt gael eu trafod yn y fforwm yma, gyda chyngor yn cael ei roi ynghylch y llwybr uwchgyfeirio priodol sy'n ofynnol.<br><br>Mae materion sy'n achosi pryder yn cael eu trafod trwy'r sesiynau Gwella Gyda'n Gilydd a roddwyd ar waith yn ddiweddar hefyd, ac mae'r sesiynau hynny'n cael eu mynychu gan Swyddogion Gweithredol ac Uwch Reolwyr y Gyfarwyddiaeth. | Medi 2023 | Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Dealltwriaeth am uwchgyfeirio ac isgyfeirio risgiau**<br>A2 Ceir ansicrwydd o fewn y Gyfarwyddiaeth ynghylch y trothwyon ar gyfer uwchgyfeirio risgiau a materion, a allai effeithio ar allu'r Bwrdd i fod â sicrwydd. Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda'r Gyfarwyddiaeth i wella'i dealltwriaeth am uwchgyfeirio ac isgyfeirio risgiau. | Cefnogir y Gyfarwyddiaeth gan y Tîm Sicrwydd a Risg yn y prosesau a gweithdrefnau ffurfiol o ran uwchgyfeirio ac isgyfeirio risgiau trwy ddarparu hyfforddiant ar gyfer staff perthnasol yn y Gyfarwyddiaeth, a darparu diweddariadau rheolaidd ar risg i gyfarfodydd y Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad a'r Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad. | | |
| | Bydd y Gyfarwyddiaeth yn diffinio trothwyon a/neu fetrigau perfformiad er mwyn cynorthwyo gydag uwchgyfeirio ac isgyfeirio risgiau. | Medi 2023 | Rheolwyr y Driwriaeth / Cyfarwyddwyr Cynorthwyol IMAD |
| | Bydd y Gyfarwyddiaeth yn rhoi'r trothwyon a/neu'r metrigau perfformiad a ddiffiniwyd ar waith er mwyn cynorthwyo gydag uwchgyfeirio ac isgyfeirio risgiau, gyda hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar gyfer staff perthnasol, gyda chymorth y Tîm Sicrwydd a Risg. | Rhagfyr 2023 | Rheolwyr y Driwriaeth / Cyfarwyddwyr Cynorthwyol IMAD |
| **Trefniadau rheoli risgiau gweithredol**<br>A3 Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi gweithredu ar adolygiadau blaenorol ac wedi gwneud cynnydd o ran gwella'i threfniadau rheoli risg; fodd bynnag, mae angen gwella ansawdd yr wybodaeth a geir ar y gofrestr risgiau. Dylai'r Gyfarwyddiaeth sicrhau bod cofrestr risgiau'r Gyfarwyddiaeth yn | Mae risgiau'n cael eu hadolygu'n fisol gan Benaethiaid Gwasanaeth o fewn y Gyfarwyddiaeth, gyda chymorth eu Rheolwyr Busnes, ac adroddir arnynt yn holl gyfarfodydd y Grŵp Cynllunio Busnes a Sicrhau Perfformiad a'r Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad o fewn y Gyfarwyddiaeth. Mae risgiau'n cael eu trafod a'u herio hefyd gan y sesiynau Gwella Gyda'n Gilydd a roddwyd ar waith yn ddiweddar, ac a fynychir | | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| cynnwys camau lliniaru, cerrig milltir a deilliannau disgwyliedig eglur. | gan Swyddogion Gweithredol ac Uwch Reolwyr y Gyfarwyddiaeth. Bydd y Gyfarwyddiaeth yn cynnal 'gweithdy risg' er mwyn adolygu'r risgiau ar y gofrestr risgiau a'u herio lle y bo angen i sicrhau bod camau lliniaru, cerrig milltir a deilliannau disgwyliedig yn cael eu disgrifio'n glir. | Gorffennaf 2023 | Rheolwyr y Driwriaeth / Cyfarwyddwyr Cynorthwyol IMAD |
| **Gweithgarwch archwilio clinigol**<br>A4 Mae'r pandemig a newidiadau mewn arweinyddiaeth wedi effeithio ar y rhaglen o archwiliadau clinigol. Dylai'r Gyfarwyddiaeth sicrhau bod rhaglen lawn o archwiliadau clinigol yn cael ei hadfer a'i bod yn weithredol. | Datblygu fframwaith a chynllun archwilio ar gyfer y Gyfarwyddiaeth, gyda chymorth y Tîm Archwilio Clinigol, sy'n adlewyrchu archwiliadau wardiau/timau lleol a gofynion ehangach y Bwrdd Iechyd. | Rhagfyr 2023 | Cyfarwyddwr Meddygol Cysylltiol, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu |
| | Hyfforddiant ar gyfer staff perthnasol i gael ei ddarparu er mwyn defnyddio Rheoli a Thracio Archwiliadau (AMaT) unwaith y byddir wedi cytuno ar y rhaglen o archwiliadau clinigol. | Rhagfyr 2023 | Nyrs Ymgynghorol, IMAD |
| | Datblygu cynllun i ennyn ymgysylltiad staff rheng-flaen â chyflawni a chyfraniad y rhaglen o archwiliadau clinigol. | Rhagfyr 2023 | Nyrs Ymgynghorol, IMAD |
| | Adroddiadau diweddaru ar gynnydd gyda'r rhaglen o archwiliadau clinigol i gael eu darparu ar gyfer Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y | Mawrth 2024 | Nyrs Ymgynghorol, IMAD |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu er mwyn darparu goruchwyliaeth ar ddeilliannau. | | |
| **Ymgysylltu â staff**<br>A5 Mae staff yn teimlo bod perthnasoedd gwael ag uwch reolwyr (o fewn y Gyfarwyddiaeth ac ar lefel Weithredol), gyda chanfyddiad nad yw iechyd meddwl ac anableddau dysgu'n flaenoriaeth, ac ymdeimlad nad yw uwch reolwyr yn gwrando ar staff nac yn eu gwerthfawrogi. Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda'r Gyfarwyddiaeth i:<br>a) sicrhau bod mecanweithiau i wrando ar staff a hybu deialog yn cael eu cryfhau, a'u bod yn cael yr effaith a ddymunir ar wella ymgysylltiad staff;<br>b) cynyddu amlygrwydd uwch reolwyr ar draws y Gyfarwyddiaeth; ac<br>c) cynnwys ymgysylltu a newid diwylliant fel rhan o waith datblygu sefydliadol y Gyfarwyddiaeth. | a) Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal arolygon staff fel rhan o'r drefn arferol. Bydd y Gyfarwyddiaeth yn cynnal arolygon yn benodol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth er mwyn goleuo cynlluniau ymgysylltu â staff yn y dyfodol, ac i amlygu unrhyw bryderon a all fod gan staff sy'n golygu bod angen sylw uwch reolwyr y Gyfarwyddiaeth.<br>Datblygu Cynllun Ymgysylltu â Staff a Datblygu Sefydliadol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth, gyda chymorth cydweithwyr o dîm datblygu'r Gweithlu i adnabod mecanweithiau cyfathrebu effeithiol.<br>b) Parhau i fynd ati'n rheolaidd i hybu ymagwedd reolaidd at amlygrwydd arweinwyr ac ymweliadau ymgysylltu ar | Rhagfyr 2023<br>Mawrth 2024<br>Mehefin 2023 | Rheolwyr y Driwriaeth / Cyfarwyddwyr Cynorthwyol IMAD<br>Rheolwyr y Driwriaeth<br>Rheolwyr y Driwriaeth |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | draws meysydd clinigol mor gynnar â phosibl.<br>c) Ymgysylltu a newid diwylliant i gael eu cynnwys wrth ddatblygu Cynllun Ymgysylltu â Staff a Datblygu Sefydliadol y Gyfarwyddiaeth. | March 2024 | Rheolwyr y Driwriaeth |
| **Recriwtio**<br>A6 Ceir swyddi gwag sylweddol yn y Gyfarwyddiaeth sy'n effeithio ar allu'r gwasanaeth i ateb y galw mewn modd amserol. Er bod y Gyfarwyddiaeth wedi datblygu grŵp rheoli'r gweithlu embryonig, mae angen dull mwy ffurfiol. Dylai'r Gyfarwyddiaeth ddatblygu dull ffurfiol ac wedi'i dargedu i fynd i'r afael â mannau lle mae recriwtio'n arbennig o broblemus a sicrhau cynaliadwyedd. | Mae gwaith wedi cael ei wneud gan bob gwasanaeth o fewn y Gyfarwyddiaeth i adnabod swyddi gwag arwyddocaol. Diben y canfyddiadau hyn yw goleuo datblygiad Cynllun Recriwtio a Chadw trosfwaol ar gyfer y Gyfarwyddiaeth, a fydd yn cyd-fynd ag amcanion strategol ehangach y Bwrdd Iechyd a blaenoriaethau cenedlaethol ehangach.<br>Bydd y gwaith i ddatblygu'r Cynllun Recriwtio a Chadw'n cael ei gwblhau a'i oruchwylio gan Grŵp y Gweithlu IMAD, a fynychir yn fisol gan Benaethiaid Gwasanaeth ac Arweinwyr Proffesiynol. | Rhagfyr 2023 | Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol, IMAD |

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.